O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif. 672 (Cy. 78)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Wedi'i wneud 21 Chwefror 2013

Yn dod i rym 26 Chwefror 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain - Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") wedi'i fodloni y dylid gwahardd neu cyfyngu ar traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar unrhyw dydd Gwener o fewn cyfnod para'r Gorchymyn hwn ac sy'n dod i ben am 06:00 o'r gloch drannoeth;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 4 Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y gerbytffordd tua'r gorllewin nac ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar lôn fewnol y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 11, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

5. Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar lôn fewnol y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw gerbyd esempt, fynd ar hyd y ffordd ymuno â'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw gerbyd esempt, fynd ar hyd y ffordd ymadael â'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Atal

9. Mae rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Cefnffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** drwy hyn yn cael ei atal:

(a) i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 6 mewn grym; a